# CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
# PWYLLGOR CYLLID
# CYNHALIWYD AR 14 MAWRTH 2024 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod trwy gyswllt fideo yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

*Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng. Luned Voyle.*

**PRESENNOL:** Cynghorwyr: Tom Defis, Andy King, Wyn Thomas, Aled Williams a Luned Voyle.

Emma Smith – Clerc y Dref
Wendy Dickson - Dirprwy Glerc a Rheolwr Cyllid
Catrin Llwyd - Cyfieithydd

**368. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Heledd ap Gwynfor, Gareth John a Jeff Thomas.

**369. Datgan Buddiannau**

Cyng. Tom Defis i Eitem 373 (i) oherwydd cysylltiad da'r mudiad.
Cyng. Tom Defis i Eitem 373 (ii) am fod ei ŵyr yn mynychu'r feithrinfa.
Cyng. Tom Defis i Eitem 374 fel trysorydd i Ynni Sir Gâr.

**370. Awdurdodi llofnodi'r Gorchymyn ar gyfer Talu Atodlenni Cyfrifon Mawrth 2024.**

Craffodd yr Aelodau ar y taliadau ac roeddent yn fodlon gyda'r amserlen a **PHENDERFYNWYD** y dylai'r taliadau gwerth cyfanswm o **£97,067.37** gael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc.

**Adroddiad Clerc y Dref**

**371. Adroddiad Ariannol**

Roedd balansau Banc y Cyngor ar 29 Chwefror 2024 fel a ganlyn:

| | **£** |
|---|---|
| HSBC Cyfrif Cyfredol | 54,296.89 |
| HSBC Cyfrif Wrth Gefn | 555,378.98 |
| **Cyfanswm yn y Banc** | **609,675.87** |

**Balansau mewn Cyfrifon Eraill ar 29 Chwefror 2024:**

Lwfans Maer - £2,457.15
Ras Hwyl y Maer - £7,695.12

- Cyfanswm y gwariant gros am y cyfnod 1af Ebrill i 29 Chwefror 2024 oedd £829,453.47.
- Cyfanswm yr incwm am yr un cyfnod oedd £177,583.81. Y gwariant net cyffredinol felly yw £651,869.66.
- Y Gyllideb Net/gofyniad Praesept ar gyfer 2023/24 yw £793,011 sydd i gyd wedi dod i law. Bydd Aelodau'n nodi o'r uchod bod y Cyngor o fewn y gyllideb ar 29 Chwefror 2024.

**NODWYD** yr adroddiad ariannol.

**372. Rhestr o Ddyledwyr**

Cafodd yr amserlen ei **CHYMERADWYO** gan y Pwyllgor

**373. Ceisiadau am Grantiau Bach a Chymorth Ariannol**

Cyflwynwyd chwech chais i'r pwyllgor a **PHENDERFYNWYD** y cyfraniadau canlynol:

i) Urdd Gobaith Cymru – Cynigiodd y Cyng. Wyn Thomas gyfraniad o £200 ac eiliwyd gan y Cyng. Andy King. **CYTUNWYD** y cyfraniad gan yr holl aelodau oedd yn bresennol.

ii) Cylch Meithrin Myrddin - Cadarnhaodd y Cyng. Wyn Thomas ei fod wedi cael gwahoddiad i helfa Wyau Pasg yn y Feithrinfa yn rhinwedd ei swydd fel Maer ac y byddai'n rhoi cyfraniad o £100 o gronfa'r Maer felly **CYTUNODD** yr Aelodau bod cyfraniad o'r cyngor mewn lle yn barod.

iii) CFFI Sir Gâr - Cynigiodd y Cyng. Andy King gyfraniad o £100 ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Thomas. **CYTUNWYD** y cyfraniad gan yr holl aelodau oedd yn bresennol.

iv) Opera Ieuenctid Caerfyrddin – Cadarnhaodd y Cyng. Wyn Thomas ei fod wedi rhoi'r swm o £100 i'r Opera Ieuenctid yn rhinwedd ei swydd fel Maer. **CYTUNODD** yr Aelodau fod y cyngor wedi cyfrannu eisoes i'r achos yma.

v) BHF Cymru - Dim cyfraniad ar hyn o bryd ond dylid anfon ateb i holi am weithrediadau lleol yr elusen ac o bosibl ailystyried pan ddaw mwy o wybodaeth i law.

vi) 621 Sgwadron Corfflu Hyforddiant Awyr – Cynigiodd y Cyng. Wyn Thomas gyfraniad o £100 ac eiliwyd gan y Cyng. Aled Williams. **CYTUNWYD** y cyfraniad gan yr holl aelodau oedd yn bresennol.

**374. Penodi Gweithiwr Ynni Cynaliadwy Proffesiynol i gynnal astudiaeth dichonoldeb ynni cymunedol**

Cyflwynwyd y cais wrth "Ynni Sir Gâr, YnNiTeg" i'r Pwyllgor gan y Clerc. Dywedodd y Clerc wrth aelodau bod y prosiect yn cael ei ariannu gan gyllid SPF. Trafododd yr Aelodau y cais a **ARGYMHELLODD** yr aelodau y dylid ei penodi fel ymgynghorydd ar gyfer yr astudiaeth Dichonoldeb Ynni Cymunedol.

**375. Amnewid cerbyd RTV ar gyfer y fynwent.**

Ystyriodd y Pwyllgor opsiynau ar gyfer prynu cerbyd RTV ar gyfer y Fynwent. Dywedodd y Clerc wrth aelodau fod cerbyd tebyg i'r un a ddangosir yn cael ei ddefnyddio mewn Cyngor arall ac y byddai ymholiadau yn cael eu gwneud ynghylch ei addasrwydd a'i ddibynadwyedd. Awgrymodd y Cyng. Wyn Thomas y dylid gofyn am ddyfynbrisiau ychwanegol a dod â'r mater i'r Cyngor llawn ddiwedd y mis ar gyfer trafodaeth bellach.

Cytunodd yr aelodau y byddai cerbyd yn cael ei rentu am y tymor byr er mwyn caniatáu i wasanaethau barhau ac i rhoi amser i gael dyfynbrisiau pellach.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:10 y.h.**